**YSGOLION YR 21AIN GANRIF**









**ADRODDIAD GWRTHWYNEBU**

**YMGYNGHORIAD AR Y CYNNIG I GAU'R CHWECHED DOSBARTH YN YSGOL GYFUN ABERPENNAR A THROSGLWYDDO DISGYBLION I YSGOL GYMUNEDOL ABERDÂR**

Mae'r Adroddiad Gwrthwynebu hefyd ar gael ar dudalen 'Dod yn rhan o bethau' ar wefan y Cyngor

RHONDDA CYNON TAF

| Tabl Cynnwys | | |
|---|---|---|
| **Cynnwys** | | **Tudalen** |
| 1. | Diben yr Adroddiad Gwrthwynebu yma | 3 |
| 2. | Yr Hysbysiad Statudol | 3 |
| 3. | Manylion y Gwrthwynebiadau a Ddaeth i Law | 4 |
| 4. | Gwrthwynebiadau ac Ymatebion | 4 |

## 1. Diben yr Adroddiad Gwrthwynebu yma

Mae'r Adroddiad Gwrthwynebu yma wedi'i baratoi yn unol â dogfen Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018). Ei ddiben yw:

- Llywio deilliant cyhoeddi'r hysbysiad statudol a gafodd ei chyhoeddi ar gyfer y cynnig yma ar 4 Mawrth 2025 am o leiaf 28 diwrnod.
- Cynnwys crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd ac ymateb Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) iddyn nhw.

## 2. Yr Hysbysiad Statudol

Mae cynnwys yr Hysbysiad Statudol er mwyn bwrw ymlaen â'r cynllun yma, a gafodd ei gyhoeddi ar 4 Mawrth 2025, wedi'i nodi isod:

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Ysgolion yr 21ain Ganrif, Canolfan Menter y Cymoedd, Parc Hen Lofa'r Navigation, Abercynon, CF45 4SN.

Dyma hysbysiad yn unol ag Adran 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018 (011/2018), fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ac yntau wedi ymgynghori â'r bobl hynny yr oedd yn ofynnol iddo ymgynghori â nhw, yn cynnig:

1. Gwneud newid wedi'i reoleiddio i'r ysgol cyfrwng Saesneg sydd wedi'i rhestru isod yn 1.1, fel bod ystod oedran y disgyblion y mae modd eu derbyn yn cael eu diwygio o 11 i 19 oed i 11 i 16 oed a bod y ddarpariaeth chweched dosbarth yn cael ei dileu.
   1.1 Ysgol Gyfun Aberpennar, Heol Newydd, Aberpennar, CF45 4DG.

Bydd gan ddisgyblion ôl-16 oed o Ysgol Gyfun Aberpennar y dewis o fynychu chweched dosbarth yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, Heol yr Ynys, Aberdâr, CF44 7RP, neu'r coleg lleol, Coleg y Cymoedd, Aberdâr, Stryd Wellington, Aberdâr, CF44 8EN a Nantgarw, Heol y Coleg, Nantgarw, CF15 7QY ar gyfer derbyn eu haddysg ôl-16.

Cynhaliodd Cyngor Rhondda Cynon Taf gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig yma. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar wefan y Cyngor, yma:
Adroddiad Ymgynghori Cynnig Ysgol Gyfun Aberpennar

Y cynnig yw cau chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar a diwygio'r dalgylch ar gyfer darpariaeth ôl-16 oed i osod Ysgol Gyfun Aberpennar yn nalgylch Ysgol Gymunedol Aberdâr.

Capasiti Ysgol Gyfun Aberpennar ar ôl i'r cynnig yma gael ei roi ar waith fydd 1,394 o leoedd disgyblion. O fis Medi 2025, y nifer derbyn arfaethedig ar gyfer yr ysgol fydd 255.


Cynigir bod y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn cau erbyn mis Medi 2026 fan bellaf. Er mwyn galluogi cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar erbyn y dyddiad yma, fydd dim disgyblion blwyddyn 12 newydd yn cael eu derbyn i'r chweched dosbarth ym mis Medi 2025.

Bydd cludiant ar gael i'r disgyblion yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Rhondda Cynon Taf, y mae modd bwrw golwg arno, yma:

Cludiant i'r Ysgol a'r Coleg | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Caiff pwy bynnag a fynno gyflwyno gwrthwynebiad i'r cynigion yma cyn pen 28 o ddiwrnodau o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig yma, sef erbyn 3 Ebrill 2025. Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Ysgolion yr 21ain Ganrif, Canolfan Menter y Cymoedd, Parc Hen Lofa'r Navigation, Abercynon, CF45 4SN neu e-bostio: CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk.

Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (ac sydd heb eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 7 niwrnod o benderfynu ar y cynnig.

| | |
|---|---|
| **Llofnod:** |  |
| Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | |
| **Dyddiad:** | 4 Mawrth 2025 |

### 3. Manylion y Gwrthwynebiadau a Ddaeth i Law

Cyhoeddwyd yr Hysbysiad Statudol ar 4 Mawrth 2025, gan ddechrau'r Cyfnod Gwrthwynebu. Daeth y Cyfnod Gwrthwynebu i ben am 5pm ar 3 Ebrill 2025. Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, derbyniwyd cyfanswm o ddau wrthwynebiad.

Mae'r Adroddiad Gwrthwynebu yn crynhoi'r gwrthwynebiadau, ynghyd ag ymateb y Cyngor iddyn nhw. Mae'r cynnig yma'n cael ei wneud yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (Ail Argraffiad) (011/2018).

I gadarnhau, bydd y ddau wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu yn cael eu hanfon at Weinidogion Cymru sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ar gynigion sy'n effeithio ar addysg 6ed dosbarth.

### 4. Gwrthwynebiadau ac Ymatebion

Mae'r tabl sy'n dilyn yn crynhoi'r ddau wrthwynebiad a dderbyniwyd ynghyd â'r ymatebion iddyn nhw.

| Rhif | Thema'r Gwrthwynebiadau | Ymateb (yn yr iaith wreiddiol) |
|---|---|---|
| 1. | ***Byddai'r cynnig yn niweidiol i'r hyn a gynigir yn gyffredinol yn Ysgol Gyfun Aberpennar.***<br><br>• Byddai colli'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn niweidiol i ddarpariaeth gyffredinol yr ysgol ac yn cosbi pobl ifainc o ardal isaf Cwm | Rydyn ni'n anghytuno bod dosbarthiadau chweched dosbarth bychain yn anhyfyw yn ariannol a, lle maen nhw'n bodoli, mae adnoddau a fwriedir er budd disgyblion 11 i 16 oed sy'n cael mynediad at addysg statudol yn cael eu hailgyfeirio i gyfrannu at ddarpariaeth ôl-16. Mae hyn yn anghynaliadwy ac yn effeithio ar y |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynon yn annheg drwy effeithio ar eu rhagolygon addysgol. | cynnig addysgol i ddisgyblion iau ac yn cyflwyno heriau cyllidebol sylweddol i ysgolion. Bydd y cynnig yma'n gwella’r darpariaeth 11 i 16 yn Ysgol Gyfun Aberpennar gan y bydd yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer disgyblion oedran statudol yn cael eu cynyddu o ystyried y gwelliannau i hyfywedd ariannol yr ysgol.<br><br>O dan drefniadau presennol Consortiwm Ôl-16 Cwm Cynon, mae 75.0% o ddisgyblion ôl-16 yn cael mynediad at eu haddysg ar draws o leiaf dau safle ysgol (Ysgol Gymunedol Aberdâr, Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru) sy’n effeithio ar amser astudio gwerthfawr. Mae'n bosibl y gallai’r teithio helaeth sydd ynghlwm wrth gael mynediad at gyrsiau addysg ôl-16 mewn mwy nag un safle ysgol fod yn rhwystr i ddisgyblion rhag symud ymlaen i addysg ôl-16 yn yr ysgol, gan gael effaith andwyol ar gadw disgyblion a symud ymlaen i Addysg Bellach ac Uwch.<br><br>Pe bai’r cynnig yn mynd rhagddo, byddai trosglwyddo disgyblion chweched dosbarth o Ysgol Gyfun Aberpennar i Ysgol Gymunedol Aberdâr yn creu chweched dosbarth mwy a fyddai â mwy o botensial ar gyfer arbedion maint ac arbedion effeithlonrwydd ariannol a all gronni a chael eu hail-fuddsoddi er budd yr holl ddisgyblion. Mae dosbarthiadau chweched dosbarth mwy hefyd yn galluogi darpariaeth addysg ôl-16 eang a chytbwys i ddisgyblion sy'n bodloni anghenion disgyblion unigol yn well ac felly byddai modd i hyn wella deilliannau disgyblion. |
| 2. | ***Mae CBSRhCT yn amlwg yn barod ar gyfer cau chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar.***<br><br>• Gan nodi’r sylwadau sydd wedi’u cynnwys yn yr Ymgynghoriad [Adroddiad] a’i atodiadau, mae [CBSRhCT] yn amlwg yn | Dyw hyn ddim yn wir. Rhannwyd yr holl ohebiaeth a dderbyniwyd yn ystod y cam ymgynghori gyda'r Cabinet a chafodd ei hystyried o ddifrif.<br><br>Penderfynodd y Cabinet fwrw ymlaen â’r broses ymgynghori statudol a chyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad yn sbarduno’r |

| | | |
|---|---|---|
| | benderfynol o gau'r [chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar] gan ei bod yn amlwg nad yw wedi ystyried y ffaith syml bod 88.0% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig. Mae hyn yn ei gwneud yn glir nad yw [CBSRhCT], er ei fod yn amlwg yn dilyn y weithdrefn, yn ystyried barn y bobl a'r cymunedau y mae fod i'w wasanaethu ac y mae'n bwrw ymlaen â'i agenda ei hun. | Cyfnod Gwrthwynebiadau o 28 diwrnod yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018).<br><br>Gweinidogion Cymru sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ar y cynnig yma ac nid Cabinet y Cyngor.<br><br>Datblygwyd yr ymgynghoriad yma'n dilyn trafodaethau rhwng CBSRhCT ac Ysgol Gyfun Aberpennar. Yn ogystal â hyn, derbyniwyd gohebiaeth gan Gyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant CBSRhCT oddi wrth Gorff Llywodraethu Ysgol Gyfun Aberpennar yn mynegi pryderon a rennir ynghylch hyfywedd a chynaliadwyedd y ddarpariaeth chweched dosbarth yn yr ysgol, a gwnaed cais i'r Cyngor i gynnal adolygiad. |
| 3. | ***Dylai Gweinidogion Cymru, yn eu hystyriaethau, sicrhau bod addysg disgyblion ôl-16 oed yn cael ei chynnal yn gyfartal yn ardal isaf Cwm Cynon.***<br><br>• Dylai [Gweinidogion Cymru], yn eu hystyriaethau, sicrhau bod cydraddoldeb addysg [disgyblion] ôl-16 oed yn cael ei gynnal yn [ardal isaf] Cwm Cynon ac nad yw [disgyblion]…yn cael eu heithrio'n annheg ar gyfer y cyfle i fanteisio ar [ddarpariaeth ôl-16] oherwydd [bod] yr opsiynau ar gyfer datblygu eu hunain yn dod yn fwy cyfyngedig oherwydd daearyddiaeth ac amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth. | Wedi'i nodi. O dan Adran 50 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae angen i gynigion sy'n effeithio ar addysg chweched dosbarth gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.<br><br>Os yw Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo'r cynnig, caiff ei weithredu yn unol â'r dyddiad a gafodd ei roi yn yr Hysbysiad Statudol neu unrhyw ddyddiad sydd wedi'i addasu, wedi hynny. Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna fydd diwedd y cynnig yma. |
| 4. | ***Proses Bontio Effeithiol***<br><br>• Mae grŵp blwyddyn 11 yn hollol wych ond yn anffodus wedi profi anfanteision ychwanegol oherwydd COVID-19; roedden nhw yn eu blwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd pan ddaeth COVID-19, ac wedi colli llawer o eiliadau arbennig, a hefyd ar raglen bontio iawn i Ysgol Gyfun | Yn ddealladwy, gall rhai disgyblion deimlo'n ofnus i ddechrau gan y posibilrwydd o drosglwyddo i ysgol newydd. Serch hynny, mae'n werth nodi bod 75.0% o ddisgyblion eisoes yn cael mynediad at ddarpariaeth ar draws o leiaf dau safle ysgol. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai cymorth wedi'i dargedu ar gyfer holl ddisgyblion chweched dosbarth o Ysgol Gyfun |

| | | |
|---|---|---|
| | Aberpennar. Effeithiwyd yn drwm hefyd ar eu blwyddyn gyntaf yn Ysgol Gyfun Aberpennar, ond er gwaethaf hynny mae'r mwyafrif helaeth ohonyn nhw bob amser wedi trio eu gorau glas i fod yn llwyddiannus.<br><br>• Mae meithrin perthnasoedd newydd gyda chyfoedion ac aelodau o staff yn cymryd amser...bydd y cynnig yn creu diwylliant 'ni a nhw'. | Aberpennar. Bydd pecyn cymorth newydd wedi'i anelu at ddisgyblion blwyddyn 12, a elwir yn EVALUATE, yn canolbwyntio i ddechrau ar ddisgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Gyfun Aberpennar i Ysgol Gymunedol Aberdâr. Bydd hyn yn cynnwys gwell Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd, mentora a gofal bugeiliol wedi'i fonitro'n ofalus.<br><br>Mae proses bontio gadarnhaol ac ystyrlon yn rhan allweddol o sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu yn eu hysgol newydd heb darfu ar eu lles a'u haddysg. Caiff hyn ei gefnogi trwy ddarparu cymorth academaidd a bugeiliol effeithiol a chyfleoedd strwythuredig er mwyn i ddisgyblion ymgyfarwyddo ag amgylchedd newydd yr ysgol ac aelodau o staff. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, gallai cydweithio gwell ar draws holl feysydd y cwricwlwm rhwng y ddwy ysgol ddechrau datblygu o flwyddyn saith ymlaen, gan ganiatáu i'r ddwy ysgol feithrin agwedd golegol ac ymdeimlad o berthyn ar draws y ddwy gymuned ysgol.<br><br>Mae cynllun eisoes ar waith ar gyfer gweithgareddau pontio a fydd yn fuddiol i gryfhau'r trefniadau consortiwm pe na bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith. Mae gwasanaethau eisoes wedi'u cynnal yn Aberpennar dan arweiniad staff Ysgol Gymunedol Aberdâr ac mae diwrnod meithrin carfan gyda'r fyddin wedi'i gynllunio ar gyfer mis Mehefin. Yn ogystal â hyn, mae cynlluniau pontio o ysgolion eraill yn yr Awdurdod Lleol sydd wedi bod trwy newidiadau trefniadaeth ysgolion llwyddiannus wedi'u rhannu i gefnogi cynllunio pellach. |
| 5. | ***Effaith ar ddisgyblion/lles disgyblion.***<br><br>• Codwyd pryderon helaeth gan rieni[/gwarcheidwaid], disgyblion (y ddwy ysgol), llywodraethwyr a staff ynghylch lles disgyblion, iechyd meddwl a chymorth ar gyfer | Mae lles pob disgybl yn bwysig iawn i'r Cyngor. Rydyn ni'n cydnabod efallai y bydd rhai disgyblion yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r newidiadau yn fwy nag eraill. |

| | | |
|---|---|---|
| | trosglwyddo disgyblion i Ysgol Gymunedol Aberdâr o Ysgol Gyfun Aberpennar, yn syth ac yn barhaus.<br><br>• Tra yn y broses o ddewis eu camau nesaf ar ôl blwyddyn 11, gwnaed y cyhoeddiad yma ac mae wedi effeithio ar lawer [disgyblion]. Mae amseriad hyn mor gyflym fel bod disgyblion oedd wedi bwriadu dychwelyd i'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar ymhen llai na blwyddyn wedi cael eu gadael wedi'u drysu ac yn ansicr beth i'w wneud nesaf. Nid yw disgyblion a oedd yn bwriadu gwneud cais bellach wedi llenwi'r llwybr opsiynau cychwynnol ar gyfer pynciau chweched dosbarth gan eu bod wedi'u dadrithio ac yn teimlo'n siomedig iawn.<br><br>• Gan ymuno â'r chweched dosbarth yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, bydd disgyblion Ysgol Gyfun Aberpennar yn cael eu hystyried a'u trin fel pobl o'r tu allan gan y carfanau disgyblion sydd wedi'u hen sefydlu.<br><br>• Yn 2014, cafodd Ysgol Gymunedol Aberdâr ei ffurfio trwy uno tair ysgol leol. Am yr ychydig flynyddoedd cyntaf roedd 'gwaddol' parhaus o ba ysgol yr oedd y disgyblion a'r staff yn tarddu ohoni. Cymerodd hyn tua phum mlynedd, neu efallai hyd yn oed yn hwy, i'w golli wrth i ddisgyblion newydd ddod drwy'r ysgol, yn ogystal â rhai staff newydd. Ar gyfer disgyblion [chweched dosbarth] [o Ysgol Gyfun Aberpennar], pan fyddant yn mynychu chweched dosbarth Ysgol Gymunedol Aberdâr, bydd eu cyfoedion wedi cael pum mlynedd yn addysgu yn yr ysgol, felly bydd gan ddisgyblion Ysgol Gymunedol Aberdâr fantais dros ddisgyblion Ysgol Gyfun Aberpennar gan y | Mae trawsnewidiadau bywyd yn nodweddion arwyddocaol ym mywydau pob person ifanc. Bydd pob disgybl sy'n derbyn addysg yn profi llawer o gyfnodau o newid ac addasu, ac mae llawer o ddisgyblion eisoes yn cael mynediad at eu haddysg ar draws mwy nag un safle ysgol ac wedi addasu'n dda i hyn. Gellid dadlau y bydd derbyn addysg ôl-16 ar lai o safleoedd ysgol yn dod â mwy o sefydlogrwydd i ddisgyblion a pharhad mewn addysgu a dysgu, a pherthnasoedd cymdeithasol gydag aelodau o staff a chyfoedion yn ystod eu hastudiaethau ôl-16.<br><br>Cydnabyddir y bydd angen cymorth emosiynol ychwanegol ar rai disgyblion, gan dderbyn amgylchedd ysgol newydd ac anogaeth i wneud ffrindiau a pherthnasoedd newydd ac i fod yn rhan o rwydwaith cymdeithasol newydd. Caiff trefniadau pontio sydd eisoes wedi'u rhoi ar waith eu manylu uchod.<br><br>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda'r ddwy ysgol i gefnogi'r broses o sicrhau pontio effeithiol. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn uchod. Bydd y trefniadau pontio sy'n cael eu darparu yn sicrhau bod digon o gyfleoedd i helpu disgyblion i lywio'r newidiadau ac ymgartrefu yn yr ysgol newydd mor gyflym â phosibl.<br><br>Mae dal modd bwrw golwg ar Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y cynnig ar wefan y Cyngor, ac mae wedi'i baratoi yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018). Mae'r Cyngor yn ystyried buddion y cynnig i blant a phobl ifainc yn unol â'r saith prif amcan sydd wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant. |

| | | |
|---|---|---|
| | byddant yn gyfarwydd â’r staff, a’r ysgol.<br><br>• A fydd cefnogaeth fugeiliol barhaus drwy gydol y chweched dosbarth i ddisgyblion a staff Ysgol Gyfun Aberpennar o Ysgol Gyfun Aberpennar ar ôl iddyn nhw symud? | |
| 6. | ***Effaith ar gyrhaeddiad disgyblion.***<br><br>• Mae’r [cynnig] yn amcangyfrif yn rhy isel sut y bydd y newid yn effeithio ar ganlyniadau Lefel A hirdymor ac alldro addysgol pobl ifainc o [ardal] isaf Cwm Cynon sy’n treulio eu haddysg cyn-16 yn Ysgol Gyfun Aberpennar ac yn y pen draw yn symud i Ysgol Gymunedol Aberdâr.<br><br>• Bydd y teimlad cyffredinol o “berthyn” a chymuned sydd gan ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn cael ei golli a heb os yn effeithio ar eu cyflawniad.<br><br>• Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i sicrhau y bydd llwyddiant y canlyniadau a gyflawnwyd yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn parhau? | Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, rydyn ni'n rhagweld na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith andwyol hirdymor a dylid nodi ar yr adeg yma yn y broses ymgynghori bod y Cyngor yn ystyried bod effaith y cynnig ar y gymuned yn gyffredinol yn gadarnhaol.<br><br>Fel y nodwyd, o fewn yr Adroddiad Ymgynghori, roedd Estyn yn ystyried bod y cynnig yn debygol o wella safon y ddarpariaeth ôl-16 yn yr ardal. Ac fel sydd eisoes wedi’i gynnwys yn y data, mae 75.0% o ddisgyblion Ysgol Gyfun Aberpennar eisoes yn cael mynediad at ddarpariaeth addysg ar draws o leiaf ddau safle ysgol, felly bydd llwyddiant cyrhaeddiad y disgyblion i’w briodoli i ansawdd yr addysgu a’r dysgu ar draws y consortiwm. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd y newid hwn yn cael effaith niweidiol ar ganlyniadau academaidd. Yn wir, fe ddylai mynediad at addysg ar un safle ysgol ddarparu mwy o barhad mewn addysgu, dysgu a chymorth bugeiliol. |
| 7. | ***A oes lle yn Ysgol Gymunedol Aberdâr ar gyfer holl ddisgyblion chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar?***<br><br>• Tynnwyd sylw gan ddisgyblion presennol Ysgol Gymunedol Aberdâr yn ystod y broses yma bod problemau capasiti o ran adnoddau, cyfleusterau a’r cyrsiau a gaiff eu cynnig. Mewn perthynas â rhai cyrsiau mae'r capasiti yn dibynnu ar Ysgol Gyfun Aberpennar i fodloni'r galw. Bydd cyflwyno niferoedd ychwanegol o ddisgyblion yn ddi-os yn gwaethygu’r sefyllfa yma. | Fel yr amlinellwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, mae digon o le yn Ysgol Gymunedol Aberdâr i ddarparu ar gyfer holl ddarpar ddisgyblion chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar. Capasiti presennol Ysgol Gymunedol Aberdâr yw 1,574 ac mae 1,238 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Felly, mae digon o le i ddarparu ar gyfer twf mewn niferoedd.<br><br>Mae ysgolion yn derbyn cyllid ôl-16 yn seiliedig ar nifer y disgyblion ôl-16 sydd ar y gofrestr. Os bydd gan Ysgol Gymunedol Aberdâr fwy o ddisgyblion chweched dosbarth, bydd ei chyllid yn |

| | | |
|---|---|---|
| | • Rydw i'n pryderu ynghylch ymarferoldeb disgyblion yn cael eu hamsugno gan Ysgol Gymunedol Aberdâr a rhagwelir y bydd niferoedd y chweched dosbarth yn cynyddu eleni, yn y ddwy ysgol. Sut y byddwch chi'n sicrhau darpariaeth ddigonol ar draws y cwricwlwm ar gyfer holl ddisgyblion y chweched dosbarth gyda chynnydd mawr yn nifer y dosbarthiadau Safon Uwch sydd eu hangen yn Ysgol Gymunedol Aberdâr? | cynyddu, a bydd gyda hi ragor o arian i'w wario ar ddarpariaeth ôl-16 a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i ddarparu ar gyfer pob disgybl.<br><br>Yn ogystal â hyn, fel y nodwyd yn y data sydd wedi'i gynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori, mae'r niferoedd ar y gofrestr yn y chweched dosbarth yn y ddwy ysgol wedi bod yn llawer uwch dros y blynyddoedd blaenorol. Mae'r data hanesyddol yma'n dangos bod gan Ysgol Gymunedol Aberdâr y gallu i ddarparu ar gyfer chweched dosbarth llawer mwy, fel y mae wedi gwneud hynny'n llwyddiannus, o fewn y 5 mlynedd diwethaf. |
| 8. | ***Mae dalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar yn ddifreintiedig, gallai hyn gael effaith andwyol ar ddisgyblion sydd eisoes dan anfantais.***<br><br>• Mae Aberpennar yn ardal ddifreintiedig; mae rhannau o Aberpennar wedi eu rhestru fel rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae disgyblion Ysgol Gyfun Aberpennar eisoes yn ymdrechu i oresgyn anfantais, heb ychwanegu ffynhonnell ychwanegol yn y chweched dosbarth. Sut bydd hyn yn cael ei oresgyn? | Caiff yr holl sylwadau mewn perthynas ag amddifadedd eu nodi.<br><br>Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y cynnig wedi'i baratoi yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018).<br><br>Mae Adran 3 o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol y Cyngor mewn perthynas â'r cynnig yma. Caiff yr anfanteision economaidd-gymdeithasol sy'n berthnasol i'r ardal eu rhestru gan ddefnyddio data o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC). Caiff pob anfantais ei ystyried o fewn cyd-destun y cynnig yma, ac mae effaith y cynnig yma ar bob anfantais wedi'i rhestru, yn fanwl a cheir tystiolaeth ohoni. Mae'r wybodaeth yma ar gael ar wefan y Cyngor o hyd.<br><br>Mae'n bwysig nodi, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, mae'n debygol iawn y byddai gan bob disgybl chweched dosbarth sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar yr hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i fynychu addysg ôl-16 yn Ysgol Gymunedol Aberdâr. |

| | | |
|---|---|---|
| 9. | ***Efallai bod y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn fach ond mae'n llwyddiannus.***<br><br>• Efallai bod y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn fach ond mae'n llwyddiannus. Yn Ysgol Gyfun Aberpennar, caiff disgyblion eu hannog ym mhob ffordd bosibl i anelu'n uchel a chredu ynddyn nhw eu hunain gan yr holl staff. Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i sicrhau bod hyn yn parhau? | Does neb yn gwadu hyn.<br><br>Fel y nodwyd, o fewn yr Adroddiad Ymgynghori, roedd Estyn yn ystyried bod y cynnig yn debygol o wella safon y ddarpariaeth ôl-16 yn yr ardal. Ac fel sydd eisoes wedi'i gynnwys yn y data, ac a grybwyllwyd uchod, mae 75.0% o ddisgyblion Ysgol Gyfun Aberpennar eisoes yn cael mynediad at ddarpariaeth ar draws o leiaf ddau safle ysgol, felly bydd llwyddiant cyrhaeddiad y disgyblion i'w briodoli i ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws y consortiwm. Yn yr un modd, fe fydd disgwyliadau uchel ar waith yn Ysgol Gymunedol Aberdâr a bydd pob dysgwr yn cael mynediad at y cymorth sydd ei angen er mwyn iddynt gyflawni'r canlyniadau gorau y maent yn gallu eu cyflawni. |
| 10. | ***Gallai arwain at oblygiadau cludiant o'r cartref i'r ysgol.***<br><br>• Mae'r Adroddiad [Ymgynghori] yn tynnu sylw at y cynigion Lefel A yng Ngholeg y Cymoedd … campws cynradd Coleg y Cymoedd ar gyfer Lefel A yw Nantgarw gyda chynnig cyfyngedig iawn yn Aberdâr. Mae hyn yn golygu bod teithio i'r campws priodol ar gyfer disgyblion Lefel A o Ysgol Gyfun Aberpennar yn mynd yn llawer anoddach ac…mae'n gosod mwy o gyfyngiadau ar ddewis disgyblion.<br><br>• Ar hyn o bryd dim ond i'r ddarpariaeth agosaf sy'n darparu'r cwrs neu'r pynciau y mae'r disgybl yn ei ddewis y mae disgyblion yn gymwys i gael cludiant am ddim [o'r cartref i'r ysgol]. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n anghyfforddus gyda'r syniad o ymuno â grŵp blwyddyn sydd eisoes wedi'i sefydlu mewn ysgol arall ac yn dewis mynd i Goleg y Cymoedd yn lle hynny. Bydd hyn yn golygu [na fydd llawer o ddisgyblion] yn gymwys i | Mae gwybodaeth am ddarpariaeth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â darpariaeth ôl-16.<br><br>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, mae'n debygol iawn y bydd **hawl** i holl ddisgyblion chweched dosbarth sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i fynychu addysg ôl-16 yn Ysgol Gymunedol Aberdâr. |

| | | |
|---|---|---|
| | gael cludiant am ddim [o'r cartref i'r ysgol]. Bydd llawer o deuluoedd yn cael trafferth gyda hyn oherwydd cyfyngiadau ariannol. | |
| 11. | ***Mae presenoldeb disgyblion y chweched dosbarth yn gosod esiampl dda i ddisgyblion cyn-16.***<br><br>• Ni fydd disgyblion iau yn [Ysgol Gyfun Aberpennar] bellach yn cael y cyfle i ryngweithio â disgyblion chweched dosbarth. Mae gan ddisgyblion chweched dosbarth rolau o gyfrifoldebau yn yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae disgyblion iau yn gweld disgyblion chweched dosbarth mewn ffordd gadarnhaol ac yn gweld hyn fel rhywbeth i anelu ato yn eu dyfodol. Nid oes gan lawer o'n disgyblion fodelau rôl cadarnhaol a bydd colli hyn yn niweidiol iddyn nhw. | Mae CBSRhCT yn cydnabod y pwynt yma, fodd bynnag, gellid creu rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion blwyddyn 11 ymgymryd â'r rôl yma a fyddai o fudd i ddisgyblion iau a hŷn. |
| 12. | ***Gallai cau'r chweched dosbarth gael effaith andwyol ar lefelau staffio.***<br><br>• Gallai cau'r chweched dosbarth gael effaith andwyol ar lefelau staffio…ni fydd unrhyw athro ag uchelgais eisiau addysgu mewn ysgol heb [chweched dosbarth]. | Nid yw'r cymwysterau i addysgu addysg ôl-16 yn wahanol i rai addysg cyn-16, ac mae modd defnyddio staff a ddefnyddir i addysgu chweched dosbarth hefyd i addysgu blynyddoedd 7 i 11. Cydnabyddir bod gan rai staff angerdd am addysgu ar lefel chweched dosbarth ac efallai y byddan nhw'n penderfynu chwilio am gyfleoedd mewn mannau eraill.<br><br>Mae gan y Cyngor bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i aelodau o staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol. |
| 13. | ***Sut bydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael eu cefnogi.***<br><br>• Mae [disgyblion] wedi treulio pum mlynedd mewn ysgol, lle maen nhw wedi arfer â'r staff, y drefn, yr adeilad a'r ardal gyfagos a nawr rydych chi am newid y chweched dosbarth yn llwyr. | Bydd pob disgybl ag ADY yn parhau i dderbyn cymorth. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn darparu canllawiau manwl ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau Cynghorau wrth ddiwallu ADY plant a phobl ifainc.<br><br>Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2021) yn argymell bod lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion yn mabwysiadu ymateb graddedig i ddiwallu ADY plant a phobl |

| | | |
|---|---|---|
| | | ifainc. Mae ymateb graddedig yn golygu bod modd cyflwyno rhagor o arbenigedd a rhagor o gymorth er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau y mae plentyn neu unigolyn ifanc yn eu hwynebu. Dylid gwneud darpariaeth ychwanegol neu wahanol gan ddibynnu ar ddifrifoldeb lefel angen y plentyn / person ifanc.<br><br>Byddwn ni'n cyflawni'r ddyletswydd a'r cyfrifoldeb yma waeth pa fath o ysgol mae'r plentyn/person ifanc yn ei mynychu. |
| 14. | ***Mae Ysgol Gyfun Aberpennar yn cynnig rhai pynciau ôl-16 nad yw Ysgol Gymunedol Aberdâr yn eu cynnig, a fydd y pynciau yma'n trosglwyddo?***<br><br>• “Nid yw llawer o bynciau poblogaidd megis seicoleg ar gael yn [Ysgol Gymunedol Aberdâr] tra eu bod ar gael yn Aberpennar [Ysgol Gyfun].” | Dim ond un cwrs a gynigir ar hyn o bryd yn Ysgol Gyfun Aberpennar nad yw'n cael ei gynnig ar hyn o bryd gan yr ysgolion eraill yng Nghonsortiwm Ôl-16 Cwm Cynon. Pe bai’r cynnig yma'n mynd rhagddo, a phe bai galw am y cwrs yma yn y dyfodol, yna caiff cefnogaeth ei gynnig i’r ysgolion yn y consortiwm i ddarparu’r cwrs yma i sicrhau nad oes effaith andwyol ar y dewisiadau sydd ar gael i ddisgyblion. Mae ysgolion yn adolygu ac yn diwygio eu cynnig ôl-16 yn rheolaidd i fodloni angen a galw.<br><br>Os oes angen cwrs penodol, gan gynnwys Seicoleg fel y cafodd ei grybwyll yn yr ymateb, yna fe allai trefniant posib i gydweithio a rhannu staff o dan drefniant secondiad fod yn opsiwn sy’n cael ei archwilio. Mae trafodaethau ynglŷn â'r trefniant yma eisoes yn cael eu cynnal fel bod modd rhoi cynlluniau ar waith yn gyflym pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith.<br><br>Bydd pennu ffyrdd creadigol yn cael eu cefnogi lle bo'n briodol ond hyd nes y bydd gyda ni niferoedd disgyblion terfynol mae'n anodd rhagweld y galw posibl am rai pynciau. Mater i arweinwyr ysgolion yw penderfynu ar y cwricwlwm a gaiff ei gynnig yn eu hysgolion ar sail y galw am rai pynciau. Serch hynny, bydd niferoedd disgyblion yn dylanwadu ar allu ysgol i ddarparu cwricwlwm eang ar gael. |

| | | |
|---|---|---|
| 15. | ***Gallai dosbarthiadau chweched dosbarth yn Ysgol Gymunedol Aberdâr fod yn rhy fawr.***<br><br>• "Bydd Ysgol Gymunedol Aberdâr…hefyd yn wynebu dosbarthiadau mwy o faint ar lefel Safon Uwch." | Mae ysgolion yn derbyn cyllid ôl-16 yn seiliedig ar nifer y disgyblion ôl-16 sydd ar y gofrestr. Os bydd gan Ysgol Gymunedol Aberdâr fwy o ddisgyblion chweched dosbarth, bydd ei chyllid yn cynyddu, a bydd gyda hi ragor o arian i'w wario ar ddarpariaeth ôl-16 a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i ddarparu ar gyfer pob disgybl. Gallai hyn gynnwys archwilio amrywiaeth ehangach o bynciau ôl-16 a gallai olygu o bosibl y byddai mwy o ddewis i ddisgyblion yn ogystal â'r cyfle i ddatblygu mwy o ofal bugeiliol ôl-16.<br><br>Mae adolygiad thematig Estyn ar 'Cyrsiau safon uwch mewn dosbarthiadau chweched a cholegau addysg bellach' ym mis Tachwedd 2018 yn amlinellu:<br><br>*"Mae meintiau dosbarthiadau yn amrywio'n sylweddol ar draws canolfannau, o un i ryw 30 [dysgwr]. Mewn dosbarthiadau bach iawn, mae'n anodd cynnal trafodaethau cynhyrchiol ac i [ddysgwyr] ddysgu oddi wrth ei gilydd."*<br><br>Felly, bydd cael chweched dosbarth mwy o faint o fudd i ddisgyblion, yn helpu i feithrin perthnasoedd, yn darparu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr ryngweithio, grwpiau astudio a phrofiad ehangach o rannu gwybodaeth a syniadau. Bydd cyfle hefyd i ddisgyblion 'gyfeillio' gan roi cymorth cyfoedion i'w gilydd gyda mwy o ryngweithio cymdeithasol a lles.<br><br>Hefyd fel y nodwyd yn flaenorol, fel y nodwyd yn y data a gaiff ei gynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori, mae niferoedd ar y gofrestr yn y chweched dosbarth yn y ddwy ysgol wedi bod yn llawer mwy. Mae'r data hanesyddol yma'n dangos bod gan Ysgol Gymunedol Aberdâr y gallu i ddarparu ar gyfer chweched dosbarth llawer mwy, fel y mae wedi gwneud hynny, yn llwyddiannus, yn y 5 mlynedd diwethaf. |

| | | |
|---|---|---|
| 16. | ***Mae rhieni/gwarcheidwaid disgyblion wedi datblygu perthynas gyda staff Ysgol Gyfun Aberpennar a byddai'n rhaid datblygu'r rhain o'r dechrau gyda staff Ysgol Gymunedol Aberdâr.***<br><br>• Hoffwn gwestiynu sut y byddai'r perthnasoedd cadarnhaol yn parhau i gael eu datblygu rhwng disgyblion y [chweched dosbarth] yn [Ysgol Gyfun Aberpennar] a staff Ysgol Gymunedol Aberdâr. | Drwy gydol y broses ymgynghori, mae sylwadau a dderbyniwyd gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Aberpennar wedi bod yn ganmoliaethus iawn ac yn hynod gadarnhaol am y gefnogaeth a'r arweiniad a gaiff ei gynnig gan staff yr ysgol. Serch hynny, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydden ni'n gobeithio y byddai'r perthnasoedd cadarnhaol hynny'n cael eu meithrin ac yn parhau i gael eu datblygu rhwng disgyblion a staff Ysgol Gymunedol Aberdâr.<br><br>Bydd y trefniadau pontio a gaiff eu darparu ar gyfer disgyblion hefyd ar gael i rieni/gwarcheidwaid hefyd, a bydd cyfleoedd i rieni/gwarcheidwaid a disgyblion ymweld â'r ysgol cyn i unrhyw newidiadau gael eu rhoi ar waith. Bydd hyn yn helpu'r disgyblion a'u teuluoedd i lywio'r newid ac ymgartrefu'n hapus yn eu hysgol newydd cyn gynted â phosibl.<br><br>Yn anochel, mae proses bontio dda yn golygu rhannu gwybodaeth yn effeithiol am ddisgyblion, eu medrau ac unrhyw anghenion cymorth. |
| 17. | ***Goblygiadau ariannol y penderfyniad***<br><br>• Sut y byddai hyn yn bosibl i'w gyflawni gyda'r penderfyniad yn dod yn llawer rhy hwyr i lefelau staffio gael eu newid a chyllid ddim yn ei le? | O ystyried amseriad y penderfyniad yma, mae'r Awdurdod Lleol wedi cadarnhau y bydd sefyllfa gyllidebol y ddwy ysgol yn cael eu diogelu ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf hyd nes y caiff penderfyniad ei wneud ar y cynnig.<br><br>Mae'r ddwy ysgol wedi cael eglurhad ar y mater yma ac wedi cael cadarnhad na fydd unrhyw effaith ariannol pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2025. |